# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

*Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig*

### 13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

(1) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen drwy'r post i berson arall ("B"), mae A yn cyflwyno'r ddogfen os yw A yn cyfeirio'n briodol lythyr sy'n cynnwys y ddogfen, yn talu ymlaen llaw am ei bostio, ac yn ei bostio at B.

(2) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen i berson arall ("B") yn electronig, mae A yn cyflwyno'r ddogfen—

- (a) os yw A yn cyfeirio'n briodol gyfathrebiad electronig sy'n ffurfio'r ddogfen neu'n cynnwys y ddogfen, neu y mae'r ddogfen ynghlwm wrtho, ac yn ei anfon at B, a
- (b) os yw'r ddogfen yn cael ei hanfon ar ffurf electronig y gall B ei chyrchu a'i chadw.

(3) Mae'r adran hon yn gymwys pa un a yw'r Ddeddf Cynulliad neu'r is-offeryn Cymreig yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu unrhyw ymadrodd arall (megis "anfon" neu "rhoi") i gyfeirio at gyflwyno'r ddogfen.